

Asesiadau cywerthedd cymwysterau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol a'r blynyddoedd cynnar a gofal plant (DU a Rhyngwladol)

Cyhoeddwyd gyntaf: 18 February 2025
Diweddariad olaf: 19 May 2025
Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/fframwaith-cymwysterau/qualification-equivalence-assessment-qea-process-for-health-and-social-care-and-early-years-and-childcare-uk-and-international am y fersiwn diweddaraf.
Cynnwys y dudalen

1. Cyflwyniad
2. Y broses asesu cywerthedd cymwysterau
3. Cwestiynau cyffredin

Cynnwys y dudalen

1. Cyflwyniad
2. Y broses asesu cywerthedd cymwysterau
3. Cwestiynau cyffredin

Cyflwyniad

Nod Gofal Cymdeithasol Cymru yw gwneud gwahaniaeth positif i ofal cymdeithasol a’r blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru.

Mae gennym fframwaith cymwysterau, sef rhestr gynhwysfawr o’r cymwysterau cyfredol, sy’n cael eu cydnabod yng Nghymru, ar gyfer pob swydd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a’r blynyddoedd cynnar a gofal plant. Gallwch gael gwybod mwy am y fframwaith cymwysterau drwy ddefnyddio'r teclyn dod o hyd i gymhwyster ar ein

gwefan.

Nid yw'r fframwaith yn rhestr gyflawn. Mae cymaint o gymwysterau ar gael ledled y byd na fyddai'n bosib eu cynnwys i gyd, ac nid ydym am greu rhwystrau i unrhyw un y tu allan i Gymru a hoffai weithio yma.

Rydyn ni wedi datblygu'r asesiad cyfwerthedd cymwysterau ar gyfer pobl sy'n dymuno gweithio yng Nghymru mewn rolau lle mae **cymwysterau** wedi'u nodi yn ein fframwaith cymwysterau fel rhai yr **argymhellir neu sy'n ofynnol** ar gyfer ymarfer a/neu gofrestru.

Rydyn ni wedi cynllunio'r broses fel bod proses gadarn, gyson, dryloyw a theg ar waith i adolygu ceisiadau'n unigol. Mae proses ar wahân ar gyfer ceisiadau gwaith cymdeithasol.

Rydyn ni'n cofnodi penderfyniadau ynglŷn â chywerthedd cymwysterau ar ddogfen a elwir yn rhestr flaenoriaeth.

Dylai ymgeiswyr newydd wirio nad yw eu cymhwyster eisoes wedi'i restru naill ai ar y fframwaith cymhwyster neu'r rhestr flaenoriaeth cyn iddynt gyflwyno cais am Asesiad Cywerthedd Cymwysterau.

Y broses asesu cywerthedd cymwysterau

Mae'r siart llif hwn yn dangos y broses a ddefnyddiwn i adolygu cymwysterau domestig a rhyngwladol:

Cwbwlhewch y ffurflen gais asesu cywerthedd cymwysterau

Cwestiynau cyffredin

1. Beth yw asesiad cywerthedd cymwysterau?

Dangos

Mae’r broses **asesu** cywerthedd cymwysterau wedi’i datblygu ar gyfer pobl sy’n dymuno gweithio yng Nghymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol neu ofal plant mewn rolau lle mae **cymwysterau’n cael eu hargymell neu’n ofynnol** ar gyfer ymarfer a/neu gofrestru.

Y broses asesu cywerthedd cymwysterau yw’r ffordd rydyn ni’n asesu cymwysterau sydd wedi’u cwblhau y tu allan i Gymru, sydd naill ai:

- heb eu rhestru’n barod ar y fframwaith cymwysterau, neu
- heb eu rhestru ar y rhestr flaenoriaeth.

Rydyn ni’n gwirio pob cais cywerthedd cymwysterau drwy edrych ar y canlynol:

- cymhwysedd – i weld a yw cymhwysedd wedi'i asesu.
- cynnwys – sicrhau bod y gofynion cymwysterau Cymreig perthnasol wedi'u bodloni.
- lefel a gwerth credyd – i wneud yn siŵr bod y cymhwyster yn cyd-fynd â lefel a maint y cymwysterau cyfredol sy’n cael eu derbyn yng Nghymru.

Rydyn ni’n defnyddio’r meini prawf hyn i sicrhau bod gan unrhyw un sy’n gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu ofal plant a’r blynyddoedd cynnar yng Nghymru y wybodaeth, y sgiliau a’r cymhwysedd cywir ar gyfer eu rôl, a’u bod yn gallu gwneud cais i gofrestru gyda ni (lle bo’n berthnasol).

Mae'r broses asesu cywerthedd cymwysterau yn **asesu cywerthedd cymwysterau yn unig**. Os oes rhaid i chi gofrestru gyda ni i ymarfer yn y rôl, bydd angen i chi hefyd wneud cais drwy'r broses gofrestru i gadarnhau cymhwysedd i gofrestru.

Bydd penderfyniad yr asesiad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir gennych, felly mae’n bwysig ei fod mor gywir â phosib. Mae darparu gwybodaeth anghyflawn, anwir neu gamarweiniol yn torri’r Cod Ymarfer Proffesiynol a gallai olygu ein bod yn gwrthod eich cofrestru neu eich tynnu oddi ar y Gofrestr.

2. Pwy sy’n gallu gwneud cais am asesiad cywerthedd cymwysterau?

Dangos

Gallwch wneud cais am asesiad cywerthedd cymwysterau os:

- hoffech chi weithio fel gweithiwr neu reolwr gofal cymdeithasol neu ymarferydd neu reolwr gofal plant a’r blynyddoedd cynnar yng Nghymru, ac yn

- meddu ar gymhwyster perthnasol (o'r DU neu dramor) nad yw wedi'i restru ar y fframwaith cymwysterau na'r rhestr flaenoriaeth.

Nid ydym yn defnyddio'r broses hon i asesu cymwysterau gweithwyr cymdeithasol. Ar gyfer cymwysterau gwaith cymdeithasol darllenwch y broses asesu cywerthedd gwaith cymdeithasol.

3. Ydw i'n gallu cael mwy nag un cymhwyster wedi'i asesu?

Dangos

Ydych, ond bydd angen i chi wneud cais newydd am asesiad cywerthedd cymwysterau ar gyfer pob cymhwyster.

4. Pa wybodaeth am fy nghymhwyster y bydd angen i fi ei rhoi fel rhan o'r cais?

Dangos

Rhaid i chi roi:

- enw llawn eich cymhwyster fel y mae'n ymddangos ar y dystysgrif
- enw a chyfeiriad darparwr eich cwrs neu ganolfan asesu
- enw'r corff dyfarnu
- rhestr o'r modiwlau neu'r unedau a gwblhawyd gennych fel rhan o'r cymhwyster, gan gynnwys y canlyniadau (pasio, methu neu unrhyw radd)
- lefel a gwerth credyd
- cadarnhad bod eich cymhwysedd wedi'i asesu yn y gweithle (er enghraifft drwy arsylwi) a/neu nifer yr oriau y buoch yn gweithio yn y lleoliad wrth gwblhau'r cymhwyster.

Mae'n rhaid i chi sicrhau bod unrhyw wybodaeth a anfonwch atom wedi'i chyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Rhaid i chi dalu am unrhyw gostau cyfieithu.

Bydd angen i chi anfon y wybodaeth angenrheidiol atom **cyn** y gallwn adolygu eich cais. Ni allwn asesu eich cais heb y wybodaeth hon.

Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais mewn un eisteddiad. Ni fyddwch yn gallu arbed eich cynnydd na dod yn ôl ati nes ymlaen. Bydd yn ddefnyddiol cael eich holl ddogfennau yn agos cyn i chi ddechrau cwblhau'r cais.

Nid oes angen i chi anfon eich tystysgrif atom er mwyn i'ch cymhwyster gael ei asesu ond efallai y byddwn yn gofyn am fwy o wybodaeth i'n helpu i benderfynu.

Rhowch wybod i ni os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch chi i gael mynediad i'r broses a byddwn yn gwneud ein gorau i'ch cefnogi. Cysylltwch â ni ar: QualificationEquivalency@socialcare.wales

5. Beth fydd yn digwydd os nad oes gen i'r dystysgrif i roi'r wybodaeth?

Dangos

Rydyn ni'n deall ac yn cydnabod y gall tystysgrifau fynd ar goll o bryd i'w gilydd, a allai olygu na fyddwch yn gallu rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ni.

Ond dim ond pan fydd gennym yr **holl** wybodaeth sydd ei hangen arnom ni y gallwn ni ddechrau adolygu eich cais. Mae hyn yn golygu y gallem wrthod eich cais os na allwch ddarparu'r wybodaeth.

Gallwch gael tystysgrifau newydd drwy ofyn i ddarparwr addysg, canolfan asesu, cyflogwr neu gorff dyfarnu roi tystysgrif a thrawsgrifiad newydd i chi.

Rhaid i chi dalu am unrhyw gostau tystysgrifau newydd.

Mewn rhai sefyllfaoedd, rydyn ni'n deall y gall problemau fel gwrthdaro, trychinebau naturiol neu fod yn ffoadur yn y DU olygu nad yw'n bosib cael tystysgrif arall. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gweithio gyda chi i ddod o hyd i ateb.

Nid oes angen i chi anfon eich tystysgrif atom ni er mwyn i'ch cymhwyster gael ei asesu. Ond bydd angen i chi roi tystiolaeth o'ch tystysgrif cymhwyster os oes angen i chi wneud cais i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

6. Beth yw'r amserlen ar gyfer gwirio cymwysterau?

Dangos

Unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom ni, byddwn yn adolygu eich cais ac yn ymateb i chi gyda phenderfyniad o fewn **28 diwrnod.**

Dim ond ar ôl i ni dderbyn yr **holl wybodaeth** sydd ei hangen arnom ni y bydd yr amserlen yn dechrau.

7. Pwy fydd yn asesu fy nghais?

Dangos

Bydd eich cais yn cael ei asesu gan:

- o leiaf dau o Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru o'r Tîm Cymwysterau a Safonau, ac
- aelod o'r panel sydd â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol yn y sector i wneud y penderfyniadau asesu cywerthedd.

I sicrhau bod penderfyniadau'r panel mor deg â phosib:

- bydd pob cais yn cael dynodydd unigryw, a bydd unrhyw wybodaeth bersonol o'r cais yn cael ei dileu, cyn ei throsglwyddo i'r panel i'w hasesu
- bydd holl aelodau'r panel wedi cwblhau hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod cyn y gallant gymryd rhan mewn panel asesu cywerthedd.

8. Beth yw canlyniadau posib adolygu fy nghymhwyster?

Dangos

Mae tri chanlyniad posib wrth adolygu eich cymhwyster, sef:

1. rydyn ni'n penderfynu bod eich cymhwyster yn **gywerth**, ac ni fydd angen i chi wneud unrhyw beth arall.
2. rydyn ni'n penderfynu nad yw eich cymhwyster yn gywerth, ond rydyn ni'n cytuno eich bod yn gwneud rhywbeth sy'n cael ei alw'n **fesurau unioni** i fodloni ein gofynion fel amser ar leoliad, neu gwblhau Fframwaith sefydlu Cymru gyfan.
3. rydyn ni'n penderfynu **nad yw eich cymhwyster yn gywerth** a bydd angen i chi wneud cymhwyster Cymreig llawn.

Pan fyddwn yn rhannu ein penderfyniad gyda chi, byddwn yn rhoi gwybod i chi beth sydd angen i chi ei wneud nesaf.

Mae'r broses asesu cywerthedd cymwysterau yn **asesu cywerthedd y cymhwyster yn unig.** Os oes rhaid i chi gofrestru gyda ni i ymarfer yn y rôl, bydd angen i chi hefyd wneud cais drwy'r broses gofrestru i gadarnhau cymhwysedd i gofrestru.

9. Sut bydd penderfyniad yr asesiad cywerthedd cymwysterau yn effeithio ar fy nghymhwysedd i gofrestru i weithio yng Nghymru?

Dangos

Os credwn fod eich cymhwyster yn **gywerth**, byddwch yn gallu defnyddio eich cadarnhad o gywerthedd gyda'ch **tystysgrif cymhwyster gwreiddiol** i gefnogi'r dystiolaeth bod gennych gymhwyster perthnasol a llawn.

Os byddwn yn gofyn i chi wneud **mesurau unioni**, byddwn yn rhoi gwybod i chi pa ddysgu sydd angen i chi ei wneud. Pan fyddwch wedi cwblhau hyn, bydd angen i chi anfon y canlynol atom ni:

- y datganiad
- eich cymhwyster
- tystiolaeth o ddysgu ychwanegol.

Bydd hyn yn dangos bod gennych gymhwyster llawn a pherthnasol i naill ai ymarfer a/neu gofrestru i weithio yng Nghymru.

Os nad yw'ch cymhwyster yn **gywerth**, byddwch yn cael esboniad llawn o ran lle nad yw'r cymhwyster yn bodloni'r meini prawf. Byddwn hefyd yn rhoi gwybod i chi beth ddylech chi ei wneud i allu cofrestru neu ymarfer yng Nghymru.

Dim ond un rhan o'r broses gofrestru yw cymwysterau.

10. Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n hapus gyda phenderfyniad yr asesiad cywerthedd cymwysterau?

Dangos

Gallwch apelio yn erbyn canlyniad yr asesiad cymhwyster os ydych o'r farn:

- bod gennych fwy o wybodaeth berthnasol nad ydych wedi'i rhannu â ni
- nad ydyn ni wedi dilyn y broses gywir
- ein bod ni wedi gwneud camgymeriad yn yr asesiad.

Mae gennych 28 diwrnod i apelio yn erbyn penderfyniad. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw apeliadau ar ôl 28 diwrnod.

Bydd angen i chi ysgrifennu atom ni i egluro pam eich bod yn credu bod ein penderfyniad asesu yn anghywir ac unrhyw wybodaeth arall i gefnogi eich apêl.

Bydd eich apêl yn cael ei hasesu gan banel newydd, nad oedd yn rhan o'r penderfyniad asesu gwreiddiol, a bydd yn cynnwys:

- o leiaf dau o Swyddogion Gofal Cymdeithasol Cymru o'r Tîm Cymwysterau a Safonfau, ac
- aelod o'r panel sydd â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad perthnasol yn y sector i wneud y penderfyniadau asesu cywerthedd.

Bydd y panel newydd yn edrych ar eich cais o fewn **28 diwrnod** o dderbyn gwybodaeth am eich apêl.

Mae dau ganlyniad posib i'r broses hon:

- **cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol**: edrychodd y panel newydd ar y wybodaeth ac mae'n cytuno â'n penderfyniad gwreiddiol. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn yn esbonio sut y daethom i'n penderfyniad.
- **gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol**: edrychodd y panel newydd ar y wybodaeth a gwrthdroi'r penderfyniad a wnaethom, gan gynnwys unrhyw fesurau unioni roedd angen i chi eu gwneud.

I sicrhau bod penderfyniadau apêl mor deg â phosib:

- bydd pob apêl yn cyfeirio at y dynodydd unigryw a roddwyd yn y broses ymgeisio, a bydd unrhyw wybodaeth bersonol yn y wybodaeth a gyflwynwyd yn cael ei dileu, cyn ei throsglwyddo i'r panel apeliadau
- bydd holl aelodau'r panel wedi cwblhau hyfforddiant ar ragfarn ddiarwybod cyn y gallant gymryd rhan mewn apêl.

11. Beth os nad ydw i'n hapus gyda'r gwasanaeth rydw i wedi'i dderbyn?

Dangos

Os ydych yn anhapus gyda'r gwasanaeth a dderbyniwch yn ystod y broses, mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym drwy ddefnyddio gweithdrefn gwyno Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn y polisi cwynion neu wneud cwyn drwy ddefnyddio ein ffurflen ar-lein.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, e-bostiwch: QualificationEquivalency@socialcare.wales